# CANLLAW CAM WRTH GAM ar gyfer Ail-gofrestru gyda Cyswllt Fffermio, trwy RPW Ar-lein

Ariennir gan **Lywodraeth Cym**
Funded by **Welsh Governme**

**FARMING** connect
cyswllt **FFERMIO**

## CYN I CHI DDECHRAU

Gwnewch yn siŵr:

- Bod gennych eich manylion mewngofnodi RPW ar-lein, gan gynnwys eich **Cyfeirnod Cwsmer (CRN)** (os oes gennych gyfeirnod eisoes)
- Bod gennych **Rif CON** (ar gael gan eich Swyddog Datblygu Lleol neu Ganolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio os nad yw'r rhif wrth law). **Noder** Ni fydd gan gwsmeriaid newydd Cyswllt Ffermio rif CON felly dylid gadael y blwch yn wag.
- Eich bod wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ar eich cofnod 'Rheoli Fy Nhir' ar RPW ar-lein yn gywir ac yn gyfredol. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt Cwsmeriaid RPW neu siaradwch gyda'ch Swyddog Cyswllt Fferm lleol.
- Bod gennych **gyfeiriad e-bost** unigryw
- Bod gennych **ffôn symudol** (ar gyfer codau dilysu a gwahoddiadau)
- Bod gennych fynediad i'r we

Gweler isod y camau ar gyfer cofrestru eich busnes ac unigolion gyda Cyswllt Ffermio.


1. Trosglwyddo i One Login **GOV.UK**
2. **YCHWANEGU** Unigolion
3. **GWAHODD** Unigolion
4. **DERBYN** unigolion ychwanegol

Mae'n rhaid cwblhau pob cam ar gyfer **POB UNIGOLYN** o fewn y busnes ffermio er mwyn cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Ni fydd unigolion nad ydynt wedi cofrestru ar eich cyfrif RPW ar-lein yn gallu cael mynediad i gymorth gan Cyswllt Ffermio.

# **CAM 1 -** Symud i One Login GOV.UK

Mae'n **RHAID** i gyfarwyddwr/partner y busnes gwblhau'r cam hwn yn y lle cyntaf er mwyn gallu ychwanegu cysylltiadau o fewn y busnesau ffermio.

a. Bydd prif gyfarwyddwr/partner y busnes yn mewngofnodi i RPW ar-lein gan ddefnyddio'r opsiwn One Login GOV.UK. Os nad ydych eisoes wedi symud o fanylion "Mewngofnodi Porth y Llywodraeth" (rhif 12 digid) i'r One Login GOV.UK newydd (e-bost a chyfrinair), bydd angen gwneud hynny yn y lle cyntaf cyn y gallwch ail-gofrestru gyda Cyswllt Ffermio.




*Os nad ydych eisoes wedi symud o Borth y Llywodraeth i One Login GOV.UK, dylech gysylltu â Chanolfan Gyswllt RPW ar 0300 062 5004 lle bydd staff yn eich cynorthwyo i wneud hynny.*


b. Os ydych eisoes wedi cwblhau One Login GOV.UK RPW, mewngofnodwch i'r cyfrif RPW ar-lein a sgroliwch i lawr y dudalen gartref at y **botwm glas** sy'n dweud **cofrestru gyda Cyswllt Ffermio**.




Cliciwch ar y botwm hwn ac atebwch y cwestiynau, gan sicrhau eich bod yn mewnbynnu eich rhif CON. Dylech fod wedi derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau mis Mawrth 2026 yn cynnwys rhif CON eich busnes. Bydd y rhif hwn yn trosglwyddo eich holl gofnodion DPP Cyswllt Ffermio blaenorol – megis cyrsiau hyfforddiant, digwyddiadau a chymorth cynghori – i'r system newydd unwaith y bydd ar gael. Os nad oes gennych eich rhif CON, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol neu Ganolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio.

c. Dylai prif gyfarwyddwr/partner y busnes nawr fod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. I ychwanegu partneriaid busnes eraill, aelodau o'r teulu neu weithwyr Talu Wrth Ennill (PAYE), ewch ymlaen i gwblhau camau 2 - 4.

# **CAM 2** - YCHWANEGU Unigolion





Bydd angen i gyfarwyddwr/partner y busnes gwblhau'r camau hyn yn y lle cyntaf.

a. Ar dudalen gartref RPW ar-lein, cliciwch **'Manylion CRN'** ar frig y dudalen (bar gwyrdd)

b. Dewiswch **'Rheoli Unigolion'** o'r gwymplen

c. Yma fe welwch restr o enwau'r bobl sydd eisoes wedi cael eu hychwanegu at y busnes. Os mae unrhyw un ar goll, mae angen i chi glicio ar y botwm glas er mwyn **'Ychwanegu Unigolyn'**. Noder, mae'n rhaid i bob unigolyn gael ei gyfeiriad e-bost unigryw ei hun ac mae'n rhaid ei nodi yma. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael mynediad at hyfforddiant a/neu e-ddysgu drwy Cyswllt Ffermio ac i gasglu gweithgarwch yn erbyn Gweithred Gyffredinol 4 (DPP) y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

d. Unwaith bydd yr enwau wedi cael eu hychwanegu, dylent ymddangos yn las ar y rhestr Rheoli Unigolion o dan y teitl **ENW**.




Er mwyn cofrestru gyda Cyswllt Ffermio, mae'n rhaid iddynt ddal y rolau canlynol:

| Aelodau'r Busnes | Pobl nad ydynt yn aelodau o'r busnes |
|---|---|
| Perchennog / Unig fasnachwr | Priod / aelod o'r teulu |
| Partner Busnes | Gweithiwr cyflog |
| Cadeirydd / Ymddiriedolwr | Rheolwr |
| Gweinyddwr Personol | Ysgrifennydd |
| Ysgutor | |
| Gweithiwr gydag awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo | |
| Ysgrifennydd Cwmni | |
| Cyfarwyddwr | |

# **CAM 3 -** GWAHODD Unigolion

Mae'n rhaid i'r camau hyn gael eu cwblhau gan gyfarwyddwr/partner y busnes yn y lle cyntaf.

a. Cliciwch ar yr **Enw (mewn glas)** yn y Rhestr Rheoli Unigolion.

b. Gwiriwch a mewnbynnwch unrhyw wybodaeth goll yn y meysydd gofynnol.

c. Sgroliwch i lawr a chliciwch y botwm **'Gwahodd'** glas

d. Mewnbynnwch eu manylion lle bo angen a bydd **cod gwahoddiad yn cael ei gynhyrchu** ar eu rhan. Gwnewch nodyn o'r rhif hwn. Bydd angen iddynt fewnbynnu'r rhif 6 digid hwn pan fyddant yn creu eu manylion mewngofnodi eu hunain. Gallwch gyfyngu ar faint o wybodaeth y mae'r unigolion hyn yn gallu ei gweld ar y pwynt hwn os nad ydych yn dymuno iddynt gael mynediad llawn i'ch cyfrif RPW ar-lein. **Bydd y gwahoddiad y byddwch yn ei rannu'n dod i ben mewn 7 diwrnod gwaith. Sicrhewch fod y rhai yr ydych yn eu gwahodd yn gweithredu ar y neges e-bost o fewn y cyfnod hwnnw.**


e. Bydd angen i brif gyfarwyddwr/partner y busnes allgofnodi o RPW ar-lein nawr ac mae'n rhaid i'r cysylltiadau unigol greu eu manylion One Login GOV.UK eu hunain trwy fewngofnodi i RPW ar-lein eu hunain gan ddilyn cam 1 uchod.

---

# **CAM 4 -** DERBYN Gwahoddiad a chofrestru gyda Cyswllt Ffermio

I'w gwblhau gan yr unigolion a wahoddwyd:

a. Ar dudalen fewngofnodi RPW ar-lein dewiswch yr opsiwn Mewngofnodwch neu cofrestrwch gan ddefnyddio One Login GOV.UK




b. Dewiswch Creu eich One Login GOV.UK (botwm gwyrdd)



# Creu eich GOV.UK One Login neu fewngofnodi

Gallwch ddefnyddio eich GOV.UK One Login i gael mynediad at rai gwasanaethau'r llywodraeth.

Yn y dyfodol, gallwch ei ddefnyddio i gael mynediad i bob gwasanaeth ar GOV.UK.

Byddwch angen:

- cyfeiriad e-bost
- ffordd o gael codau diogelwch - gall hyn fod yn rif ffôn symudol y DU neu ap dilysydd

Gallwch hefyd ddefnyddio GOV.UK One Login yn Saesneg (English).

Creu eich GOV.UK One Login

c. Pan ofynnir i chi, **mewnbynnwch y 'cod gwahodd' (rhif 6 digid)** ar gyfer eich manylion mewngofnodi i gysylltu gyda phrif gyfrif y busnes ar RPW.

d. Pan fyddwch wedi mewngofnodi, sgroliwch i lawr i'r dudalen Gartref a chliciwch Cofrestru gyda Cyswllt Ffermio



FARMING connect cyswllt FFERMIO

# Cofrestru gyda Cyswllt Ffermio

Dim ond ar RPW Ar-lein y mae modd cofrestru gyda Cyswllt Ffermio bellach

Cofrestru gyda Cyswllt Ffermio

e. Atebwch y cwestiynau a ofynnir. Mae'n bwysig eich bod yn mewnbynnu eich **rhif CON** yma. Peidiwch â hepgor y cam hwn gan y byddwch yn colli'r holl gofnodion DPP blaenorol a gedwir gan Cyswllt Ffermio (cyrsiau hyfforddiant a gwblhawyd, digwyddiadau a fynychwyd, modiwlau e-ddysgu a gwblhawyd ac ati). Os nad ydych yn gwybod eich rhif CON, cysylltwch naill ai gyda chanolfan wasanaeth Cyswllt Ffermio neu eich swyddog datblygu lleol.

f. Mae angen ailadrodd y broses hon ar gyfer pob unigolyn o fewn y busnes sy'n dymuno cael mynediad at gymorth Cyswllt Ffermio.

g. Bydd pob cofrestriad newydd yn cymryd 5 diwrnod gwaith i'w brosesu ac i ymddangos ar gronfa ddata Cyswllt Ffermio.

**Cadwch lygad ar eich cyfrif RPW ar-lein am y ffurflen Addasu Manylion Cwsmeriaid ar-lein ar gyfer pob unigolyn ychwanegol.**